CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	**CYNGOR SIR**
Dyddiad:	**9 MAWRTH 2023**
Pwnc:	**RHYDDHAU BALANSAU'R CYNGOR I GYLLIDO COSTAU CYFLOG YCHWANEGOL MEWN YSGOLION**
Aelod Portffolio:	**Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER**
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	**MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	**MARC JONES** **01248 752601** **marc.jones@ynysmon.llyw.cymru**
Aelodau Lleol:	**Amherthnasol**

A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Wrth osod cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2022/23, gwnaed rhagdybiaeth ynghylch lefel y dyfarniad cyflog ar gyfer staff NJC (yn weithredol o Ebrill 2022) ac ar gyfer athrawon (yn weithredol o fis Medi 2022). Gwnaed y rhagdybiaeth ddiwedd 2021, cyn i'r Cyngor Sir gymeradwyo'r gyllideb ar 10 Mawrth 2022.

Y rhagdybiaeth oedd y byddai cynnydd o 2.5% mewn cyflogau ar gyfer y ddau gategori o weithwyr, er bod cyllideb wrth gefn gwerth £1m hefyd wedi'i chynnwys yn y gyllideb, a oedd yn codi'r amcangyfrif o'r cynnydd i 3.2%. Rhoes hyn gynnydd o £2.3m i gwrdd â chynnydd mewn cyflogau. Gwnaed y rhagdybiaethau hyn cyn i'r rhyfel yn Wcráin gychwyn a'r cynnydd sylweddol yn lefel chwyddiant a welwyd wedi hynny.

Y dyfarniad cyflog terfynol a gytunwyd ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon oedd £1,925 i bob gweithiwr, gan roi codiad cyflog cyfartalog o 7.5% a chynnydd o £3.8m yn y gyllideb ar gyfer cyflogau.

Roedd y dyfarniad cyflog ar gyfer athrawon, sy'n cael ei argymell i Lywodraeth Cymru gan gorff cyflogau annibynnol, yn gosod dyfarniad cyflog o 5%. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru a'i weithredu o fis Medi 2022, er y dylid nodi fod undebau addysg yn gweithredu'n ddiwydiannol ar hyn o bryd er mwyn i Lywodraeth Cymru gynyddu'r dyfarniad cyflog. Gwnaed cynnig pellach, a rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru'n cyllido cyfran o'r gost, neu'r gost lawn, trwy ddarparu cyllid grant ychwanegol i awdurdodau lleol. Roedd cost y dyfarniad cyflog o 5% yn £926k, o gymharu â swm o £473k a ganiatawyd yn y gyllideb.

Yn Natganiad yr Hydref, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n gwrthdroi'r cynnydd yn lefel cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Roedd cyllidebau'r Cyngor yn darparu ar gyfer y cynnydd arfaethedig, ond gellir gwrthdroi'n ddarpariaeth yn awr. Bydd y newid yn golygu gostyngiad o £260k yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y Cyngor ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

Bydd mwyafrif gwasanaethau'r Cyngor yn amsugno'r costau ychwanegol fel rhan o'u costau eraill ac efallai y bydd ganddynt danwariant mewn meysydd eraill i gwrdd â'r cynnydd, neu efallai y byddant yn gorwario ac y bydd Balansau Cyffredinol y Cyngor yn cwrdd â'r gost.

Fodd bynnag, gan fod y gyllideb ysgolion yn cael ei datganoli, bydd unrhyw orwariant sy'n deillio oherwydd nad oes darpariaeth ddigonol ar gyfer y cynnydd mewn cyflogau yn y gyllideb ddatganoledig yn cael ei godi yn erbyn balansau ysgolion unigol. Er y byddai gan nifer o ysgolion ddigon o falansau i gyllido'r gost ychwanegol, ni fyddai gan rai ysgolion falansau ar ddiwedd y flwyddyn, neu byddai eu balansau'n fychan iawn, a byddai diffyg ym malansau lleiafrif bychan o ysgolion.

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y mater fel rhan o adolygiad o broses fonitro cyllideb refeniw'r Cyngor (gweler Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2023 – eitem 3 ar y rhaglen), ac maent yn argymell i'r Cyngor llawn y dylid cynyddu cyllideb ddatganoledig ysgolion i gwrdd â'r costau ychwanegol a wynebir gan ysgolion.

Mae'r costau ychwanegol fel a ganlyn:-

	Staff heblaw athrawon **£**	**Athrawon** **£**	**Cyfanswm** **£**
Cyfanswm Cost y Dyfarniad Cyflog Ysgolion	707,575	921,690	1,629,265
Llai Chwyddiant a gynhwyswyd yn y Gyllideb ar gyfer 2022/23	(86,700)	(354,860)	(441,560)
Gostyngiad mewn Cyfraniadau YG	(16,690)	(97,380)	(114,070)
Diffyg yn y Gyllideb	**604,185**	**469,450**	**1,073,635**

Os cymeradwyir rhyddhau'r cyllid, bydd yn cael ei ddyrannu rhwng y 3 sector (cynradd, uwchradd ac arbennig) ar sail pro rata, yn unol â'r cyllidebau staffio a bennwyd yn y gyllideb ddatganoledig ysgolion ar gyfer 2022/23, ac yna bydd yn cael ei ddyrannu i ysgolion unigol gan ddefnyddio'r fformiwla cyllido arferol.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd balansau cyffredinol y Cyngor yn £12.278m. Rhyddhawyd £0.796m yn ystod 2022/23, gan adael balans o £11.482m. Byddai rhyddhau'r cyllid hwn i ysgolion yn gostwng y balans i £10.408m, ac mae hyn yn cyfateb i 6.57% o gyllideb refeniw net 2022/23.

Mae cyllideb arfaethedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2023/24 yn defnyddio swm ychwanegol o £1.78m o falansau cyffredinol a £2m o arian wrth gefn clustnodedig, gan adael Balansau Cyffredinol o £8.628m, cyn gwneud unrhyw addasiadau ar gyfer tan neu orwariant ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r ffigwr o £8.628m gyfystyr â 5% o gyllideb refeniw net arfaethedig 2023/24.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd peidio â chyllido'r gost ychwanegol, gan olygu y byddai'n rhaid i ysgolion ddefnyddio eu balansau eu hunain i gwrdd â'r gost. O wneud hynny, balansau bychan yn unig fyddai'n weddill gan nifer o ysgolion, neu ddim balansau o gwbl, a byddai nifer fechan o ysgolion yn wynebu diffyg.

Mae ysgolion yn wynebu sefyllfa ariannol anodd yn 2023/24, ac mae'r mwyafrif o ysgolion yn defnyddio eu balansau er mwyn gallu gosod cyllideb sy'n cael ei gyllido'n llawn. Heb gymorth y cyllid ychwanegol hwn, byddai'n rhaid i ysgolion dorri eu gwariant yn 2023/24 er mwyn gosod cyllideb wedi'i gyllido'n llawn.

Mae'r cyllid ychwanegol yn rhoi amser i ysgolion gynllunio ar gyfer gostyngiad posib mewn gwariant a allai fod yn angenrheidiol yn 2024/25.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Cyngor Llawn?

Yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022, penderfynodd y Cyngor :-

"Dirprwyo grym i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23, ac ar gyngor y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, ryddhau £250k o'r balansau cyffredinol i ymdrin â blaenoriaethau sy'n codi yn ystod y flwyddyn."

Gan fod y swm y gofynnir ei drosglwyddo o Falansau Cyffredinol y Cyngor yn fwy na £250k, y Cyngor llawn sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

O dan Gyfansoddiad y Cyngor, y Cyngor llawn sydd â'r grym i ddyrannu cyllid.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae'r penderfyniad yn diwygio cyllideb refeniw'r Cyngor.

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Bydd y penderfyniad yn cynorthwyo i gynnal gwytnwch ariannol ysgolion.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?-	Na. Mae'r penderfyniad yn cyllido'r costau uwch a wynebir gan ysgolion yn llawn. Nid oes gan y Cyngor reolaeth dros y dyfarniad cyflog uwch ar gyfer athrawon a staff arall.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut:-	Amherthnasol
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Bydd rhyddhau cyllid i ysgolion yn eu cynorthwyo i gwrdd ag anghenion disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig. Fodd bynnag, mae'n gostwng lefel cyllid cyffredinol y Cyngor a gallai hynny arwain at ddarparu llai o wasanaethau yn y dyfodol.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim

E -	Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?	Beth oedd eu sylwadau?
1	**Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol)	Roedd y Prif Weithredwr a'r TA yn ymwybodol o'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu ysgolion ac maent yn cefnogi'r penderfyniad.
2	**Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol)	Awdur yr adroddiad.
3	**Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol)	Ymgynghorwyd â Swyddog Monitro'r Cyngor ynghylch p'un ai'r Cyngor sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad hwn a chyflwynir yr adroddiad hwn i'r Cyngor ar ôl derbyn cyngor y Swyddog Monitro.
4	**Adnoddau Dynol (AD)**	Amherthnasol
5	**Eiddo**	Amherthnasol
6	**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**	Amherthnasol
7	**Sgriwtini**	Trafodwyd canlyniadau'r dyfarniadau cyflog uwch na'r disgwyl, ar gyfer athrawon a staff heblaw athrawon, gydag aelodau'r Panel Sgriwtini Cyllid. Yna mae Cadeirydd y Panel yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar waith y Panel.
8	**Aelodau Lleol**	Amherthnasol
9	**Unrhyw gyrff allanol / arall**	Amherthnasol

F – Atodiadau:

Dim

FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Pwyllgor Gwaith – 2 Mawrth 2023 – Eitem 3 – Monitro'r Gyllideb Refeniw 2022/23 Chwarter 3.

Cyngor Sir Ynys Môn – 10 Mawrth 2022 – Eitem 10 (c) – Penderfyniad ar Osod y Dreth Gyngor – penderfyniad 1(dd).